# Deddf Galluedd Meddyliol 2005 - Diweddariad




Cynhyrchwyd mewn cydweithrediad â Phobl yn Gyntaf Cwm Taf a Blaenau Gwent, y Tîm Partneriaeth Rhanbarthol a Bwrdd Iechyd Athrofaol Aneurin Bevan



# 1. Cyflwyniad




Mae Deddf Galluedd Meddyliol **2005** yn gyfraith sy'n helpu ac yn amddiffyn pobl pan fyddant yn gwneud penderfyniadau.



Mae rhai pobl yn gallu gwneud penderfyniadau ar eu pen eu hunain
Mae rhai pobl yn gallu gwneud rhai penderfyniadau



Weithiau mae rhai yn methu gwneud unrhyw benderfyniadau




Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn helpu i sicrhau bod pobl yn cael yr help cywir i wneud cymaint o'u penderfyniadau eu hunain â phosibl



Mae hefyd yn amddiffyn pobl sydd angen staff cynorthwyol sy'n cael eu talu, teulu a ffrindiau i wneud penderfyniadau ar eu cyfer

# 2. Penderfyniadau




Mae’r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn delio â phob penderfyniad fel:




Ble i fyw



Pa ddillad i wisgo



P'un ai i adael i staff eich helpu yn y bath neu'r gawod



Faint o'r gloch dwi'n gadael y dafarn



A ddylwn gael llawdriniaeth





A ddylai rhywun ofalu am eich arian i chi



A ydych am gael swydd neu beidio



Pa fwyd i'w fwyta



A oes angen gweld gweithiwr proffesiynol neu beidio




**Mae gan y Ddeddf 5 rheol y mae'n rhaid eu dilyn wrth brofi am alluedd**



1. Rhaid cymryd yn ganiataol bod pawb yn gallu gwneud penderfyniadau oni bai y gellir dangos nad ydynt yn gallu



Efallai na fydd rhywun yn gallu penderfynu a ddylai symud tŷ.

Bydd yn rhaid i rywun ei helpu i wneud y penderfyniad hwn os na all ei wneud ei hun



Ond efallai y bydd yr un person yn gallu penderfynu beth i'w fwyta a beth i'w wisgo.



Rhaid caniatáu iddynt wneud y penderfyniadau hynny



Mae pob person yn wahanol ac mae pob penderfyniad yn wahanol




2. **Dylai pobl gael cymaint o gymorth ag sydd ei angen arnynt i'w galluogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain**




Dylai pobl gael y wybodaeth mewn ffordd y maen nhw'n ei deall er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad



Nid yw'n iawn dim ond i fynd ati i ddweud na all rhywun wneud penderfyniad



3. **Penderfyniadau Annoeth**




Os gall y person ddeall yr hyn y mae'n ei wneud, yna mae gan oedolyn neu berson ifanc (16 ac 17 oed) yr hawl i wneud penderfyniad nad yw eraill weithiau'n cytuno ag ef.



Gallai hyn fod yn rhywbeth fel dewis ysmygu

# 3. Galluedd




I wneud penderfyniad mae angen i ni:




* Deall y wybodaeth



* Cofio'r wybodaeth



* Cymryd amser i feddwl am y wybodaeth




- Gallu cyfleu i eraill pa benderfyniad yr ydym am ei wneud

# 4. Er Lles Pennaf



Mae lles pennaf yn golygu os na all rhywun wneud ei benderfyniad ei hun yna bydd yn rhaid i berson arall wneud y penderfyniad ar ei ran.



Pan fydd y penderfyniad yn cael ei wneud mae'n rhaid iddo fod er lles y person ac nid unrhyw un arall



5. **Lleiaf cyfyngol** (Mewn ffordd sy'n caniatáu'r rhyddid mwyaf)



Os bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar ran rhywun rhaid iddo gael ei wneud mewn ffordd sy'n rhoi cymaint o ryddid a hawliau iddynt




Bydd newid i'r gyfraith. Bydd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn newid i Drefniadau Amddiffyn Rhyddid.




Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn newid – Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019




Bydd Cod Ymarfer Newydd fydd yn ein helpu i ddeall sut y bydd yn gweithio



Bydd hyn yn helpu i gadw pobl yn ddiogel ac yn eu rhoi yn y canol pan fydd penderfyniadau sy'n effeithio ar eu rhyddid yn cael eu gwneud ar eu rhan.




Disgwylir i'r newid hwn ddigwydd cyn bo hir - ond rydym yn aros am y dyddiad




I gael rhagor o wybodaeth, gweler y fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid neu ewch i wefan y Llywodraeth [yma]

Gwyliwch fideos Llywodraeth Cymru yma
[Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) yng Nghymru/Liberty Protection Safeguards (LPS) in Wales - YouTube]



I gael help neu wybodaeth cysylltwch â

Sarah.livingstone@torfaen.gov.uk
ffoniwch 07929 725242

neu Tom.Grace@wales.nhs.uk i gael mwy o wybodaeth





